

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 17 TACHWEDD 2015

Presennol

Ei deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr

B Owen, W R Owen, I C Thomas , H W Roberts, A W Bohana,
G Thomas, A Hopcyn, E Hughes, T Thomas, K Williams, C Williams ,
G Thomas, M Sarnacki

Cyn cychwyn y cyfarfod safodd pawb am funud i gofio am y sawl a laddwyd yn trychineb Paris

Siaradwyr Gwadd: Mandy Jones a Sally Baxter Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd

Croesawyd y ddwy gan Y Maer

Aethant ati bod nhw yma i wrando ar bryderon er bod yr ymgynghoriad mamolaeth wedi gorffen

Nododd Cyng G Thomas (c) pan oedd aelod o'i deulu ar fin geni llynedd oedd wedi cael ei argymell iddynt drafaelio i Glan Clwyd ond gan bod aelod o'r teulu yn fydwraig wedi medru mynd i Fangor neu fel arall fydda'r plentyn wedi cael ei geni ar y A55

Derbyniodd ateb bod lefelau staffio ar draws Gogledd Cymru yn golygu bod y 3 prif ysbyty yn hanesyddol wedi helpu naill a llall. Felly os ydi Bangor yn brin o staff i nifer y mamau a phlentyn yna byddai defnyddio Glan Clwyd yn digwydd. Ceisio rheoli'r gofal yn ddiogel sydd yn bwysig ac yn cael ei fonitro yn wythnosol. Nodwyd nad oedd unrhyw pryderon bod y gwasanaeth presennol ddim yn saff. Fuasai gwasanaeth gofal yn y gymuned dal yn parhau.

Nodwyd bod y gwasanaeth yn ymwybodol o bryderon pobl am y pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau Ambiwlans

Nododd Cyng A Hopcyn bod niferoedd genedigaethau yn debyg iawn ar y tair safle ac amhosib fydda meddwl cau un lle, ac i beidio tanamcangyfrif problemau yr A55

Cafwyd ateb bod y ffactorau hyn i gyd yn cael eu cysidro gan y bwrdd, gan bwysleisio mai edrych ar sefyllfa dros dro maent.

Buasai rhaid edrych yn fanwl ar yr holl elfennau

Tydi'r gwasanaeth ambiwlans ddim yn cael trafferth gan bod nhw yn defnyddio golau glas

Fydd trafodaethau efo'r cyrff perthnasol fel coleg brenhinol meddygol yn parhau i sicrhau bod y gwasanaeth yn saff.

Rhodddwyd ar ddeall bod nhw yn derbyn ystadegau dyddiol a byth digon o fydwragedd. Weithiau fydd rhaid cau uned gan bod dim digon o fydwragedd ond mae hyn yn broblem cenedlaethol

Rhai yn teimlo bod gweithredu ar y cynllun wedi cychwyn yn barod gan bod rhai cleifion Cancr yn gorfod mynd i Glan Clwyd yn barod .

Nodwyd bod yr ysbytai yn gweithio trwy ei gilydd am bod arbenigedd ar gael yn gynt .

Cwestiynwyd lle oedd y ffin a tynnu sylw mai dim y pellter mewn milltiroedd sydd yn achosi pryder ond cyflwr y lonydd. Dim ffordd deul mewn rhan fwyaf o lefydd. Faint o blant sydd angen gofal brys ar ôl geni?

Pwysleisiwyd bod yr uned ddim yn cau ym Mangor ond ystyried pan mai angen arbenigedd efallai fydd angen mynd i Glan Clwyd.

Ffiniau wedi cael ei ystyried gan y bwrdd , dibynnol ar y lefelau o ofal sydd ei angen. Weithiau mae'n rhaid trafaelio er mwyn cael arbenigedd fel i Alderhay ag ati

Problemau staffio i weld yn broblemus, ac mae hyn yn wendid hanesyddol.

Cydnabyddwyd bod na broblemau staffio a morâl ond bod nhw yn ceisio ffyrdd newydd o greu rhwydwaith staffio cryfach. Hyn yn broblem trwy'r Deyrnas Unedig. Lefelau swyddi gwag yn 25% yn genedlaethol ond lefelau lleol wedi bod mor uchel a 40% . Da ni angen niferoedd genedigaethau bod dros 2500 i gael dyraniad hyfforddeion, sydd yn anffodus ddim yn digwydd.

Nodwyd bod na ymgyrch recriwtio wedi bod dros yr haf oedd yn hyd yn oed edrych dramor gan bod dros 200 o swyddi gwag dros y 3 safle

Tydi rôl nyrs ddim byd tebyg i be oedd o 5- 10 mlynedd yn ôl .

Pawb yn holi beth oedd “dros dro” yn olygu, ond teimlir bod hyn yn anodd iawn i ateb gan bod nifer o ffactorau yn dylanwadu

Gobeithir sefydlu uned yn 2018 felly ychydig dros flwyddyn fydda .

AR hyn o bryd mae oddeutu 36 y flwyddyn yn mynd i Arrowe Park a'r gobaith fydd cadw nhw yn fwy lleol gyda'r uned. Yn Glan Clwyd fydd yr uned newydd.

Diolchodd Y Maer iddynt am eu atebion cywrain ac i'r Cynghorwyr am cwestiynau doeth

1.Ymddiheuriadau

Cyng M Thomas a Cyng E Lovgreen

2.Cyhoeddiadau'r Maer

Cyhoeddiadau'r Maer
Seremoni wobrwyo Eich Pencampwyr, Llandudno
Cynhadledd Age Cymru, Caernarfon
M.P.C.T., Canolfan Brailsford, Bangor
Her Gwynedd, Ysgol Syr Hugh Owen
Agor siop y Pabi Coch, Rayners
Ymweliad ag Ysbyty Newydd Bryn Seiont

3.Datgan Buddiant Personol

Cyng I C Thomas – eitem 9 os fydd trafodaeth
Cyng E Hughes – eitem ti a fi o cofnodion panel cyllid
Cyng M Sarnacki – ni chymerodd rhan yn yr adran siaradwyr gwadd

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dyddiadau ymgynghoriad National grid

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i) Cyngor, 3 Tachwedd 2015
- ii) Panel Cyllid 3 Tachwedd 2015 – *adroddiad ar lafar* ar y noson

Penderfynwyd

- i) Derbyn fel rhai cywir
- ii) Derbyn argymhellion y panel cyllid (copi caled er gwybodaeth yn rhaglen 1 Rhagfyr)

Gadawodd C Williams y cyfarfod ar ôl yr eitem yma (6.55)

6. Ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu

- i) I ystyried y Ceisiadau Cynllunio (*dim Ceisiadau Cynllunio*)
- ii) Hysbysiad o Gais Trwyddedu (*Atodiad 6/ii*)

Penderfynwyd

- ii) Trwydded Eiddo/Premises Licence

Morrisons, Ffordd y Gogeldd, Caernarfon

Cytuno

(ni chymerodd Cyng I C Thomas rhan)

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

- i) Gofyn i'r clerc gael pris dau gamera sefydlog yn hytrach na un sy'n troi
- ii) Penodi Alwyn Jones a Andy Rowlands fel brysgyll wŷr i rannu'r swydd

9. Llythyr gan Menai Strait Fishery Order Management Association

Penderfynwyd

Dim rhoi sylw gan bod o allan o ffiniau Caernarfon

10. Comisiwn Cydraddoldeb ar Hawliau Dynol

Digwyddiad Cyffordd Llandudno 9 Rhagfyr

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

11. Llythyr gan Les Burridge

Penderfynwyd

Peidio prynnu'r llun

12. Her Gwynedd

Cynnig cyfarfod gyda'r Sector wirfoddol Tachwedd 27 am 10.00

Penderfynwyd

Maer, Dirprwy a'r clerc i fynychu a A Bohana wrth gefn

13. Trefniadau ar gyfer Noson Nadoligaidd y Cyngor

Gofynnodd y clerc

- os oedd ffafriaeth i ba safle ai yr Eglwys neu rywle arall ?
- Cystadleuaeth – creu arddun coeden Nadolig neu poster Nadoligaidd
- Dathlu'r geni
- Hetiau sïon corn

Penderfynwyd

- Yn nwylo'r clerc gan sicrhau bod toiled ar gael
- Poster Nadoligaidd
- Ia
- Prynu 200

14. Cwestiynau

Oes posib gael cerdyn i'r clerc dalu biliau ?

Oes posib gofyn wrth criw cae pêl-droed i gyd weithio i fod ru'n noson yn hytrach na anifeiliaid yn cael eu dychryn dwy noson ?

Oes na ateb am y cysodfannau bysus ? na , ond dim yn disgwyl un gan mai dim ond gofyn am awgrymiadau oeddynt

15. Dyddiadau Ymgynghoriad National Grid

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

Gorffennodd y cyfarfod am 7.25

Arwyddwyd Dyddiad